Briff Ymchwil

# Y wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd

**Awdur:** Nigel Barwise

**Dyddiad:** 4 Rhagfyr 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Nigel Barwise**
Dyddiad: **4 Rhagfyr 2017**
Rhif Papur: **17-035**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

q: **0300 200 6315**
E: **Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru**
y: **seneddymchwil.blog**
a: **@SeneddYmchwil**
a: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1
2. Datblygiadau yng Nghymru ........ 1
   - Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 1
   - Llywodraeth Cymru ........ 2
   - Newyddion ........ 2
3. Datblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd ........ 3
   - Y Cyngor Ewropeaidd ........ 3
   - Y Comisiwn Ewropeaidd ........ 3
   - Senedd Ewrop ........ 4
   - Newyddion ........ 4
4. Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig ........ 5
   - Llywodraeth y Deyrnas Unedig ........ 5
   - Tŷ'r Cyffredin ........ 5
   - Tŷ'r Arglwyddi ........ 7
   - Newyddion ........ 8
5. Yr Alban ........ 8
   - Senedd yr Alban ........ 8
   - Llywodraeth yr Alban ........ 9
6. Gogledd Iwerddon ........ 9
7. Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ........ 9
8. Adroddiadau a gyhoeddwyd ........ 9

# 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy'n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; ar lefel yr Undeb Ewropeaidd; y Deyrnas Unedig; yr Alban ac Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 15 a 29 Tachwedd, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle mae gwybodaeth ar gael ar adeg y drafftio terfynol.

# 2. Datblygiadau yng Nghymru

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

*Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yw prif bwyllgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau cysylltiedig â Brexit o ran gwaith y Pwyllgorau.*

Dyma sesiynau diweddaraf y Pwyllgor:

- 20 Tachwedd: Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru (Trawsgrifiad) ar gyfer ei ddau ymholiad cyfredol: **Gwydnwch a pharodrwydd: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit** a **Goblygiadau'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd i Gymru**.
- 27 Tachwedd: Cyfarfu'r Pwyllgor ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer sesiwn dystiolaeth gyda'r Prif Weinidog ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (**Trawsgrifiad**). Yna, cynhaliodd y pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol sesiwn dystiolaeth arall gyda'r Prif Weinidog ar drafodaethau a pharatoadau Brexit. Yn y sesiwn ar y cyd, dywedodd y Prif Weinidog fod **Bil Parhad yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru wedi cael ei baratoi** (BBC).

21 Tachwedd: Siaradodd David Rees AC, Mark Drakeford AC a Michael Russell MSP ar y Bil Ymadael a Datganoli yn "**Uwchgynhadledd Bil Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**" yn y Guildhall yn Llundain.

5 Rhagfyr: Bydd David Rees yn siarad am **Brexit ac Economi Cymru** yn Fforwm Polisi Cymru, gyda Nathan Gill AC a Steffan Lewis AC yn gadeiryddion ar y diwrnod.

Cyhoeddir blogiau'r Gwasanaeth Ymchwil ar **Pigion**. Y blogiau Brexit diweddaraf yw **Negodiadau ynghylch Ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro**; pedwar ar Brexit a'r amgylchedd: Edrych ar baratoadau pwyllgorau deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig: **Rhan 4 - Senedd y Deyrnas Unedig: Tŷ'r Arglwyddi**, **Rhan 3 - Senedd y Deyrnas Unedig: Tŷ'r Cyffredin**, **Rhan 2 - Senedd yr Alban** a **Rhan 1 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru**; a thri chyhoeddiad: **Y sector cig coch**; **Y sector llaeth** a hefyd **Y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru**.

**Adroddiadau eraill**

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cyhoeddi ei adroddiadau ar **Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru**, a **Dyfodol Polisïau Amaethyddol a Datblygu Gwledig yng Nghymru**.

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ystyried y defnydd a wneir o gefnogaeth gan yr Undeb Ewropeaidd ac effaith Brexit fel rhan o'i ymchwiliad i **Gwerthu Cymru i'r Byd**.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ystyried goblygiadau Brexit ar Hawliau Dynol fel rhan o'i ymchwiliad i Hawliau Dynol yng Nghymru. Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth

anffurfiol ar y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â Brexit a Hawliau Dynol gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac arbenigwyr o Gomisiwn y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi dechrau adrodd ar ble gellid bod angen diwygio is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi lansio ei **Ymchwiliad i Bwerau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth**. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Tachwedd.

**Y Cyfarfod Llawn**

15 Tachwedd: Dadl Fer: **Camfanteisio ar fewnfudwyr i'r Deyrnas Unedig gan gangiau troseddol o fewnfudwyr**.

22 Tachwedd: **Etholwyd Jane Hutt i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** yn lle Eluned Morgan, ac etholwyd Jenny Rathbone yn lle Jeremy Miles.

22 Tachwedd: Dadl Fer: **Busnes ôl-Brexit a'r cyfleoedd i Gymru**.

## Llywodraeth Cymru

16 Tachwedd: **Gwleidyddion Ewropeaidd yng Nghymru i drafod Brexit**. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru Gynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol. Llofnodwyd **Datganiad Caerdydd** yn y gynhadledd.

22 Tachwedd: **Mark Drakeford yn ymateb i Gyllideb yr Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig**.

24 Tachwedd: Roedd Mark Drakeford ar banel "**Y Deyrnas Unedig, Iwerddon a Brexit**" yng nghyfarfod 2017 Cymdeithas Astudiaethau Ewropeaidd Cyfoes Iwerddon yn Nulyn.

27 Tachwedd: "**Fe wnawn ni gydweithio â'n ffermwyr i'w helpu i ateb heriau Brexit**" - Lesley Griffiths ar ddiwrnod agoriadol Ffair Aeaf Frenhinol Cymru.

27 Tachwedd: **Llywodraeth Cymru yn ehangu ei gwaith dramor er mwyn rhoi hwb i fasnach ar ôl Brexit**.

## Newyddion

16 Tachwedd: **Brexit, cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru** (Gan Catherine May, Pennaeth y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru**, yn yr adran Blogiau Brexit a Chymru)

20 Tachwedd: **Sector Tenantiaid Byd Amaeth angen Diwygio Trethi Tir er mwyn bod yn barod am Brexit** (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

22 Tachwedd: **NFU Cymru yn tanlinellu pwysigrwydd mynediad at farchnad yr Undeb Ewropeaidd**.

27 Tachwedd: **Partneriaeth rhwng y Diwydiant a'r Llywodraeth yn darparu cynllun clir - Amaeth Cymru - Dyfodol Amaethyddiaeth yng Nghymru** (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

28 Tachwedd: Maes Sioe Frenhinol Cymru: **Brexit a Senedd Ewrop: Beth mae'n ei olygu i fyd amaeth – Cymru** (Senedd Ewrop)

28 Tachwedd: **Mae'n rhaid i'r weledigaeth ffermio ar ôl Brexit ganolbwyntio ar gynhyrchu rhagor o fwyd ar lai o dir** (CLA)

# 3. Datblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd

## Y Cyngor Ewropeaidd

17 Tachwedd: **Piler Hawliau Cymdeithasol Ewrop: Cyhoeddi ac arwyddo**.

17 Tachwedd: Sylwadau gan y Llywydd, Donald Tusk, ar ôl y **cyfarfod anffurfiol o benaethiaid gwladwriaethau neu lywodraethau'r Undeb Ewropeaidd yn Gothenburg** – yn cynnwys paragraff ar Brexit.

17 Tachwedd: **Datganiad yn dilyn cyfarfod gweinidogol Cyfiawnder a Materion Cartref rhwng yr Undeb Ewropeaidd ac Unol Daleithiau America**.

18 Tachwedd: **Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2018: Taro ar gytundeb**.

20 Tachwedd: **Ffermio organig: cadarnhau rheolau Ewropeaidd newydd**.

20 Tachwedd: **Asiantaeth Feddyginiaethau Ewrop i adleoli i Amsterdam yn yr Iseldiroedd**, **Awdurdod Bancio Ewrop i adleoli i Baris yn Ffrainc**.

## Y Comisiwn Ewropeaidd

16 Tachwedd: **Trwyddedau preswyl i ddinasyddion o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd** – Pwynt uchaf newydd yn y trwyddedau preswyl cyntaf a gyhoeddwyd yn Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn 2016 – Y prif fuddiolwyr o Wcráin, Syria a'r Unol Daleithiau.

16 Tachwedd: Mapio ffynonellau a lefelau llygredd aer yn Ewrop: **y Comisiwn yn cyhoeddi Mynegai ac Atlas Ansawdd Aer newydd**.

17 Tachwedd: Sylwadau agoriadol gan Jean-Claude Juncker, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, yn y **gynhadledd i'r wasg yn dilyn yr Uwchgynhadledd Gymdeithasol ar gyfer Swyddi Teg a Thwf**.

18 Tachwedd: **Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr hinsawdd yn gwneud cynnydd ar weithredu Cytundeb Paris**.

20 Tachwedd: **Araith gan Michel Barnier yn y Ganolfan ar gyfer Diwygio Ewropeaidd ar destun 'Dyfodol yr Undeb Ewropeaidd'**, **Barnier wrth y Deyrnas Unedig: Gallai cadw'n glos at fodel yr Undeb Ewropeaidd fod yn 'dyngedfennol'** (Politico)

20 Tachwedd: **Rheolau newydd ar gyfer ffermio organig: Datganiad gan y Comisiynydd Phil Hogan**.

21 Tachwedd: Wythnos BBaCh Ewrop 2017 - **BBaCh yn yr Undeb Ewropeaidd yn cynhyrchu hanner y fasnach mewn nwyddau o fewn yr Undeb Ewropeaidd** – gyda chyfran ychydig yn uwch ar gyfer mewnforion.

22 Tachwedd: **Pecyn yr Hydref y Semester Ewropeaidd**: Ymdrechu am dwf cynaliadwy a chynhwysol.

24 Tachwedd: **Cymorth gwladwriaethol: Y Comisiwn yn cymeradwyo mecanwaith gallu ar y cyd ar gyfer Iwerddon a Gogledd Iwerddon**.

28 Tachwedd: **Dimensiwn cymdeithasol Ewrop: Y Llywydd Juncker a'r Prif Weinidog Löfven yn cyflwyno ffordd ymlaen ar ôl yr Uwchgynhadledd Gymdeithasol**.

29 Tachwedd: **Anerchiad gan Michel Barnier yng Nghynhadledd Ddiogelwch Berlin**.

## Senedd Ewrop

Astudiaeth: Brexit ac Iwerddon - Astudiaeth o Ystyriaethau Cyfreithiol, Gwleidyddol ac Economaidd.

Astudiaeth: Ffin glyfar 2.0 - Osgoi ffin galed ar ynys Iwerddon o ran rheoli Tollau a gallu pobl i symud yn rhydd.

Astudiaeth: Ymadawiad y Deyrnas Unedig ('Brexit') a Chytundeb Gwener y Groglith.

15 Tachwedd: Rheol y gyfraith a democratiaeth yng Ngwlad Pwyl dan fygythiad: dylid gweithredu gweithdrefn Erthygl 7 yr Undeb Ewropeaidd i atal torri rheol y gyfraith.

16 Tachwedd: Senedd Ewrop yn barod i ddechrau trafodaethau gyda llywodraethau'r Undeb Ewropeaidd ar ailwampio system Dulyn.

18 Tachwedd: Bargen cyllideb yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2018: Senedd Ewrop yn rhoi hwb i fentrau ieuenctid a thwf.

21 Tachwedd: Rheolau clir ar offer pysgota wedi eu gwahardd a rhagor o hyblygrwydd i bysgotwyr yr Undeb Ewropeaidd.

22 Tachwedd: Bwyd organig: golau gwyrdd ar gyfer rheolau newydd yr Undeb Ewropeaidd.

24 Tachwedd: Brexit a Senedd Ewrop: Beth mae'n ei olygu o ran gwyddoniaeth ac ymchwil?

## Newyddion

14 Tachwedd: Ewrop yn diystyru rheolau'r farchnad rydd yn llwyr i helpu ffermwyr - O'r diwedd, mae ffermwyr yn gwneud cynnydd gyda chwynion mai y nhw yw'r rhai sydd ar eu colled yn y gadwyn cyflenwi bwyd (Politico)

15 Tachwedd: Senedd Ewrop yn canslo trefniadau â Theresa May Uwch Aelodau Senedd Ewrop ddim eisiau aros ym Mrwsel ar ddydd Gwener i gyfarfod Prif Weinidog Prydain (Politico)

15 Tachwedd: Gwarged o €26.4 biliwn ym masnach nwyddau rhyngwladol ardal yr Ewro, a €3.1 biliwn o warged ar gyfer EU28 (Eurostat)

16 Tachwedd: PESCO: Pragmatig a bron â bod yn anwleidyddol (Darn barn yn Euractiv)

16 Tachwedd: Brexit: Sut mae'r Iseldiroedd yn paratoi ar gyfer 'dim bargen' (BBC)

16 Tachwedd: Barnier yn dryllio gobeithion masnach Prydain – Mae'r ffaith bod Llundain yn mynnu gadael y farchnad sengl a'r undeb tollau'n golygu mai bargen masnach rydd sylfaenol yw'r unig ddewis (Politico)

17 Tachwedd: Llinell amser Brexit Barnier: Dim bargen pontio tan fis Hydref 2018 - Bydd yr amserlen yn peri braw i fusnesau sy'n awyddus am eglurder ôl-Brexit cyn gynted â phosibl (Politico)

17 Tachwedd: Prif Weinidog Iwerddon: Yr Undeb Ewropeaidd yn barod i aros am 'gonsesiynau' Brexit (Politico)

23 Tachwedd: Brwsel yn anelu at ad-daliad cyllideb Prydain yn ystod trafodaethau Brexit (Politico)

# 4. Datblygiadau yn y Deyrnas Unedig

## Llywodraeth y Deyrnas Unedig

16-17 Tachwedd: Cyfarfodydd y Prif Weinidog â Phrif Weinidog Sweden Stefan Löfven; Taoiseach Iwerddon Leo Varadkar; Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Donald Tusk, ac Arlywydd Macron o Ffrainc;

13 Tachwedd: Bydd Cytundeb Ymadael a Bil Gweithredu yn rhoi sail gyfreithiol i wahanu oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd.

14 Tachwedd Diweddariad: Gwybodaeth am y Bil Ymadael: Trosolwg; Trosi a Chadw Cyfreithiau; Cywiro Pwerau; Pŵer i weithredu'r cytundeb ymadael; Datganoli; Siarter Hawliau Sylfaenol; Hawliau gweithwyr, Diogelu amgylcheddol; Diogelu defnyddwyr; Hawliau cytundebau; Geirfa; Asesiad effaith; Barn y Pwyllgor Polisi Rheoliadol; Dadansoddiad cydraddoldeb. Mae'r Memorandwm Pwerau Datganoledig yn nodi darpariaethau'r Bil sy'n rhoi pwerau i wneud deddfwriaeth ddatganoledig.

14 Tachwedd: Anerchiad David Davis yn UBS.

16 Tachwedd: Anerchiad David Davis i Uwchgynhadledd Economaidd Süddeutsche Zeitung, Berlin, David Davis yn methu â darbwyllo arweinwyr busnes yr Almaen ynghylch bargen masnach rydd Brexit (The Telegraph Premium)

17 Tachwedd: David Davis: Mae rhai o wledydd yr Undeb Ewropeaidd eisiau symud ymlaen at drafodaethau masnach ôl-Brexit (Radio 4 via Politico)

17 Tachwedd: Gall y Deyrnas Unedig ac Iwerddon gryfhau cysylltiadau drwy Brexit: erthygl gan Boris Johnson yn yr Irish Times.

17 Tachwedd: Diweddariad David Davis i Dŷ'r Cyffredin ar drafodaethau gyda'r Undeb Ewropeaidd.

21 Tachwedd: Cyfarfod y Prif Weinidog â Sinn Féin a'r DUP.

23 Tachwedd: Y Prif Weinidog yn bresennol yn Uwchgynhadledd y Bartneriaeth Ddwyreiniol.

23 Tachwedd: David Davis yn cwblhau ei ymweliad ag Estonia.

## Tŷ'r Cyffredin

Rhestr o ddiwygiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) hyd yn hyn.

15 Tachwedd: Cwestiynau Brexit ynghylch y ffin ag Iwerddon, a Deddf Iwerddon 1949.

15 Tachwedd: Cam pwyllgor Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

20 Tachwedd: Cyflwynwyd y Bil Trethiant (Masnach Trawsffiniol) gerbron y Tŷ.

21 Tachwedd: Cwestiwn i'r Ysgrifennydd Tramor ar Adael yr Undeb Ewropeaidd: Polisi Tramor a Diogelwch.

21 Tachwedd: Cam pwyllgor Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). 22 Tachwedd: Datganiad Ariannol.

28 Tachwedd: Cwestiwn Brys: Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Asesiadau Effaith fesul Sector, Brexit: Astudiaethau'r Llywodraeth yn cael eu trosglwyddo i Aelodau Seneddol yng nghanol ffrae ynghylch cyfrinachedd (BBC)

28 Tachwedd: Dadl yn Neuadd San Steffan: **Economi Wledig Cymru**.

29 Tachwedd: Cwestiwn Brys ar gostau Brexit.

## Pwyllgorau

Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiant: **Tystiolaeth ysgrifenedig wedi ei chyhoeddi** ar gyfer ei ymchwiliad i **effaith Brexit ar y diwydiant awyrofod**. **Sesiwn dystiolaeth**, Trawsgrifiad, **Airbus U.K. yn rhybuddio am beryglon Brexit wrth i China chwennych gwaith ar adenydd** (Bloomberg) - 21 Tachwedd. **Cwestiynu'r Ysgrifennydd Gwladol ar Brexit**, economi 'gig' a'r Strategaeth Ddiwydiannol - 29 Tachwedd.

Cyfansoddiad: Sesiwn dystiolaeth ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) gyda **Keir Starmer (Llafur) a Tom Brake (Democrat Rhyddfrydol)** - 29 Tachwedd.

Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: **Sesiwn dystiolaeth ar Brexit: Y fasnach fwyd, Trawsgrifiad**, erthygl Euractiv **Strategydd amaeth: Byddai'n 'amhosibl' i gynhyrchwyr grawn y Deyrnas Unedig gystadlu y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd** - 15 Tachwedd. **Cyhoeddwyd tystiolaeth ysgrifenedig bellach**. **Effaith Brexit ar y diwydiannau llaeth, dofednod a moch** - sesiwn dystiolaeth ar 29 Tachwedd. Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth ar 15 Tachwedd gyda **chynrychiolwyr o ddiwydiant pysgota'r Deyrnas Unedig**, **Trawsgrifiad**. **Archwiliwyd effaith Brexit ar y diwydiant pysgota** hefyd ar 29 Tachwedd.

Craffu ar Ewrop: **Cyhoeddodd y pwyllgor ymateb y Llywodraeth i adroddiad** gan y pwyllgor a'i rhagflaenodd yn y Senedd flaenorol.

Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: **Cyhoeddi adroddiad ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** – 17 Tachwedd. **Llythyr at y Cadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn anfon asesiadau effaith** - 27 Tachwedd. **Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol gan y Cadeirydd ar asesiadau effaith** - 28 Tachwedd. Sesiwn dystiolaeth ar **Effaith Brexit ar fasnach** – 29 Tachwedd.

Materion tramor: Gohebiaeth gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ynghylch etholiadau'r **Llys Cyfiawnder Rhyngwladol** - 28 Tachwedd. **Holi'r Gweinidog Gwladol ynghylch Diplomyddiaeth y Deyrnas Unedig tuag at yr Undeb Ewropeaidd**, **Trawsgrifiad** – 28 Tachwedd. **Holi Academyddion am ddyfodol perthynas ddiplomyddol Prydain ag Ewrop** – 29 Tachwedd.

Iechyd: **Sesiwn dystiolaeth gyda'r gweithlu nyrsio** – 28 Tachwedd.

Materion Cartref: Cyhoeddi **adroddiad** dan y teitl **'Home Office delivery of Brexit: customs operations'** - 16 Tachwedd. **Y Swyddfa Gartref yn cyflawni Brexit: mewnfudo**, **Trawsgrifiad** – 21 Tachwedd a **29 Tachwedd**, a **10 Tachwedd - Trawsgrifiad**.

Hawliau dynol: **Mae David Davis wedi ymateb** i **lythyr y Cadeirydd ar 2 Tachwedd** ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) – 20 Tachwedd.

Masnach Ryngwladol: Sesiwn dystiolaeth ar **barhau i gymhwyso cytundebau masnach yr Undeb Ewropeaidd**, **Trawsgrifiad** - 15 Tachwedd. **Lansio ymchwiliad i berthynas fasnach y Deyrnas Unedig gydag Awstralia a Seland Newydd** – 16 Tachwedd. **Dewisiadau masnach y Deyrnas Unedig y tu hwnt i 2019** – cyhoeddi **ymateb y Llywodraeth** – 17 Tachwedd. **Trawsgrifiad o dystiolaeth ar berthynas fasnach Unol Daleithiau America a'r Deyrnas Unedig** – 22 Tachwedd. Sesiwn dystiolaeth ar y **Bil Masnach** – 29 Tachwedd.

Gogledd Iwerddon: **Holi Prif Weinidog Gibraltar ar Brexit a'r ffin dir**, **Trawsgrifiad** – 15 Tachwedd. Ymchwiliad newydd – **Datganoli a democratiaeth yng Ngogledd Iwerddon: delio â'r diffyg** – 24

Tachwedd. Sesiwn tystiolaeth lafar, **Y ffin dir rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon**, gyda Chloe Smith a Robin Walker - 29 Tachwedd.

Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol: Sesiwn dystiolaeth ar **Ddatganoli ac Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** - 28 Tachwedd. **Cymal 11 yn cael ei ystyried yn ansensitif yn gyfansoddiadol, meddai PACAC** – **Adroddiad** – 29 Tachwedd.

Materion yr Alban: **Angen gweithredu ar frys i roi terfyn ar y methmat datganoli ar ddychwelyd pwerau**, **Adroddiad** – 19 Tachwedd. **Glasgow yn cynnal ail gyfarfod yr ymchwiliad i fewnfudo** – 27 Tachwedd.

Y Trysorlys: Perthynas economaidd y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd **Trawsgrifiad** - 15 Tachwedd.

Materion Cymreig: **Llythyr at y Cadeirydd gan y Prif Ysgrifennydd Gwladol Damian Green ar Brexit** - 20 Tachwedd. Yn Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, cynhaliwyd trafodaeth ar effaith Brexit gyda'r Pwyllgor, fel rhan o'i ymchwiliad i **Brexit: amaeth, masnach a dychwelyd pwerau** - 27 Tachwedd.

15 Tachwedd: Ysgrifennodd Cadeirydd Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin at Ganghellor y Trysorlys i ofyn am i'r Deyrnas Unedig aros yn rhan o **raglen ymchwil Horizon-2020**.

## Tŷ'r Arglwyddi

16 Tachwedd: Cwestiynau am **Brexit: Trosglwyddo Data**.

16 Tachwedd: Cwestiynau am **Gydweithredu Parhaol wedi ei Strwythuro**.

16 Tachwedd: Trafodaeth fer ar **Brexit: Y Gwledydd Lleiaf Datblygedig**.

20 Tachwedd: Cwestiynau am **Brexit: Awyrennau**.

20 Tachwedd: Trafodaeth fer ar **Weinyddiaethau Datganoledig: Memorandwm Dealltwriaeth**.

22 Tachwedd: Cwestiynau am **Brexit: Croesi Ffiniau**.

23 Tachwedd: Cwestiynau am **Brexit: Gweinyddiaethau Datganoledig a dychwelyd pwerau**.

23 Tachwedd: Cwestiynau am **Brexit: Cyllid Ymchwil Iechyd Meddwl**.

28 Tachwedd: Cwestiynau am **Brexit: Cyhoeddi Asesiadau Effaith**.

### Pwyllgorau

Pwyllgor Dethol yr Undeb Ewropeaidd: **Y Pwyllgor yn ymateb i ymatebion y Llywodraeth ar yr adroddiadau ar Gibraltar a Thiriogaethau Dibynnol y Goron** – 24 Tachwedd. Aeth dirprwyaeth i **Gynhadledd rhif 58 y Pwyllgorau Seneddol ar gyfer Materion Undeb Seneddau'r Undeb Ewropeaidd (COSAC) yn Estonia** – 26-28 Tachwedd. **Llythyr gan David Davis ynghylch asesiadau effaith** - 27 Tachwedd.

Is-bwyllgor Ynni a'r Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd: Trafodaeth o amgylch y bwrdd gyda sefydliadau o'r Deyrnas Unedig ac Ewrop i archwilio **effaith bosibl Brexit ar fasnach y Deyrnas Unedig mewn gwastraff**, **Trawsgrifiad** – 22 Tachwedd. Llythyr at Michael Gove yn dilyn **cyfarfod y pwyllgor ar 1 Tachwedd** - 22 Tachwedd.

Is-bwyllgor Materion Allanol yr Undeb Ewropeaidd: Ystyriodd y Pwyllgor **ymagwedd allanol yr Undeb Ewropeaidd at fudo** ar 30 Tachwedd.

Is-bwyllgor Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd: **Cyn-farnwyr yn archwilio'r effaith bosibl ar awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit**, **Trawsgrifiad** – 21 Tachwedd.

Is-bwyllgor Materion Ariannol yr Undeb Ewropeaidd: sesiynau tystiolaeth ar **reoleiddio a goruchwylio ariannol yn dilyn Brexit** – 15 Tachwedd a **29 Tachwedd**.

Is-bwyllgor Materion Cartref yr Undeb Ewropeaidd: Cafodd **goblygiadau iechyd gadael Euratom** eu harchwilio gan y Pwyllgor mewn sesiwn untro – 22 Tachwedd. **Gofal iechyd cyfatebol yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon ar ôl Brexit** 15 Tachwedd. **Gofal iechyd cyfatebol ar ôl Brexit** ar 15 Tachwedd, a thrachefn ar **29 Tachwedd**.

Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr Undeb Ewropeaidd: Llythyr at y Cadeirydd gan Liam Fox ar **Awdurdod Atebion Masnach y Deyrnas Unedig** – 15 Tachwedd. Llythyr at y Cadeirydd gan Margot James ar **Brexit: cystadleuaeth** – 20 Tachwedd. Sesiwn ddilynol y Pwyllgor ar **wasanaethau masnach awyr ôl-Brexit** – 30 Tachwedd.

## Newyddion

15 Tachwedd: Ffederasiwn y Busnesau Bach yn dweud **'na fydd Pwerdy'r Gogledd' oni bai bod cyllid yn cael ei roi yn lle cyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y rhanbarth** (Chronicle Live)

15 Tachwedd: **Manfred Weber: Mae May yn gwybod y bydd Brexit yn peri difrod** Gadawodd arweinydd y dde-ganol yn Senedd Ewrop y trafodaethau gyda Phrif Weinidog Prydain 'yn fwy gobeithiol nag yr oedd pan aeth i'r cyfarfod.' (Politico)

15 Tachwedd: **Pobl o'r Deyrnas Unedig a thu allan i'r Deyrnas Unedig yn y farchnad lafur: Tachwedd 2017**. Amcangyfrifon o weithgarwch y farchnad lafur yn ôl cenedligrwydd a gwlad enedigol (ONS). **Cyrhaeddodd nifer y gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig y lefel uchaf erioed ar ôl y bleidlais dros Brexit**. Mae'r ffigurau'n nodi cynnydd penodol ymysg pobl o Fwlgaria a Romania. (Politico)

15 Tachwedd: **Theresa May mewn sefyllfa gryfach nag y mae pethau'n ymddangos** (The Conversation)

17 Tachwedd: **Gweithredu ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd** - Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

23 Tachwedd: **Rhybudd diplomydd o India y bydd yn rhaid i Brydain dderbyn rhagor o fewnfudwyr os yw eisiau bargen masnach rydd** (The Telegraph Premium)

25 Tachwedd: **'Dim bargen rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig? Ni fyddai hynny'n ddiwedd y byd', medd pennaeth Sefydliad Masnach y Byd** (The Telegraph Premium)

28 Tachwedd: Y Pwyllgor Polisi Ariannol 'o'r farn' y gallai system fancio'r Deyrnas Unedig barhau i ategu'r economi real drwy Brexit anhrefnus. – **Adroddiad Sefydlogrwydd Ariannol Banc Lloegr, rhif 42**.

# 5. Yr Alban

## Senedd yr Alban

Diweddariad Brexit Senedd yr Alban: **15 Tachwedd**, **23 Tachwedd**.

Pwyllgor Materion Allanol: Trafodaeth ar **Lywyddiaeth Cyngor yr Undeb Ewropeaidd** gydag Ei Harddderchowgrwydd Tiina Intelmann (Llysgennad Estonia i'r Deyrnas Unedig) – 16 Tachwedd.

Pwyllgor Pwerau Datganoledig a Diwygio'r Gyfraith: **'Ni ddylai Gweinidogion y Deyrnas Unedig allu deddfu mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Llywodraeth yr Alban'** – **Adroddiad cyntaf ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** - 17 Tachwedd.

### Llywodraeth yr Alban

20-21 Tachwedd: **Edrych tua'r gogledd am degwch a thwf** – Gogledd Ewrop yn troi ei golygon at yr Alban wrth i Fforwm Cylch yr Arctig ddechrau. **Strategaeth yr Arctig ar gyfer yr Alban**.

23 Tachwedd: **Yr Ysgrifennydd Diwylliant yn rhoi sylwadau ar gais Dundee 2023**.

24 Tachwedd: **Yr Alban ac Iwerddon** – Rhaid i gysylltiadau â chymdogion agos barhau.

25 Tachwedd: Yr Ysgrifennydd Diwylliant Fiona Hyslop yn ysgrifennu at y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch **Prifddinas Diwylliant Ewrop 2023**.

28 Tachwedd: Galwad am ddadansoddiad llawn o Brexit - **Michael Russell yn gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig rannu dadansoddiadau gyda'r cyhoedd**.

# 6. Gogledd Iwerddon

Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi **EU Matters: BREXIT Negotiation Focus**, sy'n cynnwys crynodeb o safbwyntiau negodi Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop.

**The Brexit Hub**: gwybodaeth a dolenni at adnoddau ar bwnc Brexit a Gogledd Iwerddon.

25 Tachwedd: **Ffrynt Brexit caled arall Theresa May** - Plaid Unoliaethol Ddemocrataidd Gogledd Iwerddon yn pennu hanfodion mater ffin Iwerddon.

# 7. Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

**Rhai cwestiynau ar Drafodaethau Brexit** – 16 Tachwedd.

# 8. Adroddiadau a gyhoeddwyd

**Pennaeth y Cenhedloedd Unedig: Mudo yn 'hynod ddymunol' os caiff ei reoli'n drugarog ac yn gyfrifol** (Euractiv)

**Yr hyn y gall trafodwyr Brexit sy'n trafod Gogledd Iwerddon heddiw ei ddysgu o'r berthynas rhwng Prydain ac Iwerddon yn 1973** (The Conversation)

**Mae gan economi Gogledd Iwerddon lawer mwy i'w golli yn sgil Brexit caled nag economi'r Weriniaeth** (The Conversation)

**Pleidlais Brexit, Chwyddiant a Safonau Byw'r Deyrnas Unedig** (Politico)

**Sut i ddiogelu economiau'r Gorllewin ar gyfer y dyfodol** - Prif feddylwyr economaidd yr Unol Daleithiau ac Ewrop yn dweud bod angen i ni ddechrau drwy drwsio ein gwleidyddiaeth (Politico)

**Araf bach gyda'r elfennau cymdeithasol, Ewrop** - Mae angen economi marchnad agored a rhwyd diogelwch cymdeithasol ddibynadwy ar Ewrop (Rasmussen, Prif Weinidog Denmarc, yn Politico)

**Technoleg yn cynnig gobaith i'r Deyrnas Unedig ar ôl Brexit, ond ni fydd cost y cymorth yn rhad** (Politico)

Ffinio ar Brexit: safbwyntiau cymunedau lleol yn rhanbarth ffin ganolog Iwerddon/Gogledd Iwerddon (UK in a Changing Europe)

Cysylltiadau rhynglywodraethol a physgodfeydd: dygymod â dylanwad anarferol yr Alban (UK in a Changing Europe)

Seicodrama Brexit yn mynd yn ôl y disgwyl yn union (UK in a Changing Europe)

'Fe fyddwch chi'n ei gasáu': pam mae'r 'dewis Norwy' yn gyfystyr â gwaseidd-dra hunan-fwriadol i'r Undeb Ewropeaidd (LSE Brexit)

Mae sicrhau symud data'n rhwydd ar ôl Brexit yn hollbwysig, ond mae'n ymddangos yn annhebygol ar hyn o bryd (LSE Brexit)

Pwy fydd yn casglu'r ffrwythau ac yn cynaeafu'r llysiau ar ôl Brexit? Gallai adolygu'r Cynllun Gweithwyr Amaethyddol Tymhorol fod yn ateb (LSE Brexit)

Y ffin ag Iwerddon yn taro'n ôl (UK in a Changing Europe)

Llunio polisi bwyd a materion gwledig ôl-Brexit i Gymru (Blogiau Brexit a Chymru)

Prydeinwyr yn Sbaen: pedwar naratif eang ar Brexit (LSE Brexit)

Mae'n bryd i Brydain wynebu ei phrinder sgiliau ôl-Brexit (The Conversation)

Bargen fasnach 'sydyn' rhwng Prydain ac America? NAFTA yn awgrymu nad oes gobaith o hynny'n digwydd (The Conversation)

Pam y bu i 'adfeddiannu rheolaeth' gael y llaw uchaf ar 'brosiect ofn' (UK in a Changing Europe)

Gallai Brexit caled fod yn dda o ran trethi yn y Deyrnas Unedig (UK in a Changing Europe)

Hafan dreth Brexit: bygythiad i'r Deyrnas Unedig, nid i'r Undeb Ewropeaidd (UK in a Changing Europe)

Y rhwyg cyfandirol? Amlygiad economaidd i Brexit mewn rhanbarthau a gwledydd y naill ochr a'r llall i Fôr Udd (UK in a Changing Europe)

Mae Brexit wedi rhwygo'n agored raniadau heb eu cymodi yng Ngogledd Iwerddon (LSE Brexit)

Y stori fewnol am sut y bu i David Cameron yrru Prydain at Brexit (Ivan Rogers, darlith yng Ngholeg Hartford, adroddwyd yn Prospect)

Gwyliwch y Bylchau: Brexit Bwyd, gwahaniaethau rheoleiddio a'r angen am fframwaith amaeth-fwyd newydd i'r Deyrnas Unedig (Blogiau Brexit a Chymru)